## CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth, 18 Gorffennaf 2023, am 10.00am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd; Gill German, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd; Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol; Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant; Win Mullen-James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio; Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; ac Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Karen Edwards, Bobby Feeley, Hugh Irving, Alan James, Delyth Jones, Huw Hilditch-Roberts, Brian Jones, Terry Mendies ac Andrea Tomlin

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Gofal Cymdeithasol ac Addysg (NS) a Llywodraethu a Busnes/ Swyddog Monitro (GW); Pennaeth Cyllid ac Archwilio (SG); Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Gofal Cymdeithasol a Digartrefedd (AL); Rheolwr Yswiriant a Risg (CJ); Uwch Swyddog Refeniw (LG); Cydlynydd Busnes - Swyddfa’r Arweinydd (RPJ), a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ a SLW [Gweddarlledydd])

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Rhys Thomas gysylltiad personol gydag eitem 3 gan ei fod yn gwirfoddoli i Fanc Bwyd Dyffryn Clwyd a’i fod yn Ymddiriedolwr.

## 3 MATERION BRYS

Derbyniodd yr Arweinydd gais gan y Cynghorydd Delyth Jones i ystyried y mater canlynol a oedd angen sylw brys-

**Darpariaeth Prydau Ysgol am Ddim yn ystod y Gwyliau** - cyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru na fyddai prydau ysgol am ddim yn cael eu cynnig dros wyliau’r haf.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Delyth Jones at y cyhoeddiad hwyr gan Lywodraeth Cymru i beidio ag ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer prydau ysgol am ddim dros wyliau’r haf a mynegodd bryder am yr effaith andwyol ar y teuluoedd â’r angen mwyaf. Roedd wedi bod yn falch o weld cyflwyniad prydau ysgol am ddim i’r holl

blant cynradd o dan gytundeb cydweithredu rhwng Llafur Cymru a Phlaid Cymru ac nid oedd eisiau gweld y gwaith yn cael ei amharu o ganlyniad i'r penderfyniad diweddaraf. O ganlyniad, roedd wedi gofyn am drafodaethau pellach gyda Llywodraeth Cymru gyda'r nod o newid y penderfyniad, ac i ystyried y gost i'r Cyngor pe cymerir camau i fynd i'r afael â'r sefyllfa er mwyn cefnogi teuluoedd diamddiffyn yn Sir Ddinbych.

Darparodd y Cynghorydd Gill German (Aelod Arweiniol) rywfaint o gefndir i'r sefyllfa bresennol ac estyniad diweddaraf y ddarpariaeth o ran prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau hyd at hanner tymor mis Mai fel y cyhoeddwyd ym mis Mawrth. Er ymdrechion gorau Llywodraeth Cymru, roedd y cronfeydd wrth gefn ar gyfer y ddarpariaeth (a fu'n dibynnu'n helaeth ar gyllid argyfwng Covid) wedi dod i ben ac roedd yr ysgolion wedi rhoi gwybod i deuluoedd ers mis Mawrth nad oedd sicrwydd y byddai estyniad arall. Ond, roedd yn bwysig sicrhau bod cynifer o deuluoedd â phosibl yn derbyn cymorth yn ystod gwyliau'r haf ac fe ymhelaethodd ar y gwaith sylweddol a'r cyfoeth o fentrau sydd ar gael i gefnogi teuluoedd o ran hynny. Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys cyfeirio teuluoedd at gefnogaeth Llywodraeth Cymru gyda chostau byw, Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol Bwyd a Hwyl ar gyfer gweithgareddau / prydau am ddim, gwaith a wnaed gan Deuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg gyda rhestr hir o weithgareddau ar gyfer teuluoedd gan gynnwys sesiynau coginio a chynhwysion i fynd adref gyda nhw. Roedd grwpiau cymunedol hefyd yn gweithio i lenwi'r bwlch a chefnogi teuluoedd. Rhoddwyd sicrwydd bod llawer o waith ar y gweill i fynd i'r afael â'r sefyllfa a byddai cyfleoedd pellach yn cael eu harchwilio i sicrhau bod cynifer o deuluoedd â phosibl yn cael cefnogaeth.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio ar y sefyllfa ariannol, gan egluro bod y ddarpariaeth cyllid dros dro wedi'i weinyddu gan awdurdodau lleol ar ran Llywodraeth Cymru. Byddai parhau â'r cyllid dros wyliau'r haf yn costio rhwng £600,000 - £700,000 i'r Cyngor, a byddai'n golygu pwysau o £1m+ dros gyfnod o flwyddyn. Fel Swyddog Adran 151 ni fyddai'n gallu cefnogi parhad y cyllid hwn o ystyried rhagolygon ariannol heriol y Cyngor.

Nododd yr Arweinydd lwyddiannau'r cytundeb cydweithredu a chydweithrediad llwyddiannus y ddwy blaid wleidyddol yn y Senedd ac yn y Cyngor. Roedd yn falch o glywed am y gwaith caled i dargedu teuluoedd â'r angen mwyaf a sicrhau y gallant dderbyn cefnogaeth, a darparodd sicrwydd y byddai trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar y mater yn parhau er budd y teuluoedd hynny. Cydnabu'r Cynghorydd Delyth Jones y gwaith caled sy'n cael ei gyflawni ac o ystyried pwysigrwydd y mater roedd yn awyddus i gael trafodaethau pellach gyda Llywodraeth Cymru. Nododd amgylchiadau ariannol anodd y Cyngor hefyd ond roedd yn dymuno parhau i archwilio llwybrau eraill i gefnogi'r teuluoedd hynny. Roedd y Cynghorydd Rhys Thomas yn gweithio gyda nifer o sefydliadau gwirfoddol ac yn ymwybodol bod ysgolion yn atgyfeirio at sefydliadau'r trydydd sector i gael cefnogaeth. Gofynnodd bod y Cyngor yn anfon e-bost at holl ysgolion Sir Ddinbych cyn gwyliau'r haf yn eu hatgoffa o'r gefnogaeth sydd ar gael ac i rannu'r manylion gyda'r rhieni / gofalwyr. Pwysleisiodd y Cynghorydd Gill German bod y sgyrsiau hyn yn parhau â'r ysgolion ond cytunodd i olrhain y mater gyda'r Pennaeth Addysg gyda'r nod o sicrhau y rhennir nodyn atgoffa o'r holl gefnogaeth sydd ar gael gyda'r holl ysgolion cyn cau.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorydd Jones am godi'r mater ac am y sicrwydd a roddwyd o ran y gwaith caled sy'n cael ei wneud a'r gefnogaeth sydd ar gael i deuluoedd.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2023.

**Cywirdeb -** Tudalen 7 - Eitem 2: Datgan Cysylltiad - newid 'Rhyl' i 'Rhys'.

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar yr uchod, derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2023 a chadarnhau eu bod yn gywir.*

## 5 PREMIWM TRETH CYNGOR AR AIL GARTREFI / CARTREFI GWAG HIRDYMOR

Yn absenoldeb yr Aelod Arweiniol, cyflwynodd y Cynghorydd Rhys Thomas yr adroddiad ar ddeddfwriaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru (LlC) i gynyddu'r lefel uchafswm ar gyfer premiymau treth y cyngor ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor, a diweddaru'r Cabinet ar ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion ar gyfer codi tâl ychwanegol ar y cartrefi hyn yn Sir Ddinbych. Ceisiwyd safbwyntiau'r Cabinet ar y cynigion i symud ymlaen â chodi tâl ychwanegol, ac i gyflwyno argymhelliad i'r Cyngor er mwyn ceisio penderfyniad terfynol ym mis Medi.

Y rheswm dros y cynigion oedd cynyddu'r stoc o dai yn y sir a darparu mwy o dai ar gyfer pobl leol. Roedd yr adroddiad yn ymwneud â phremiwm treth y cyngor ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor yn unig, nid oedd yn cynnwys unrhyw faterion eraill sy'n destun deddfwriaeth arall. Roedd y Cabinet wedi cytuno i ymgynghori ar y cynigion i gadw'r premiwm yn 50% ar gyfer Ebrill 2023, cynyddu i 100% o fis Ebrill 2024, ac i 150% o fis Ebrill 2025, gyda phremiwm uwch o 50% yn fwy na'r premiwm safonol ar gyfer eiddo sydd wedi bod yn wag a heb ddodrefn am 5 mlynedd a mwy. Uchafswm y cynnydd a ganiateir oedd 300%.

Tynnodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio sylw at y wybodaeth yn yr adroddiad a oedd yn cynnwys y cefndir a'r cyd-destun, newidiadau deddfwriaethol, adborth o'r ymarfer ymgynghori a thablau data, a'r Asesiad o Effaith ar Les. Roedd canlyniadau'r ymgynghoriad yn dangos bod y mwyafrif o'r ymatebwyr sy'n byw yn Sir Ddinbych yn teimlo bod angen cynyddu premiymau Treth y Cyngor ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor; ac felly'n cefnogi'r argymhelliad. Yn gyffredinol nid oedd perchnogion ail gartrefi a thai gwag hir dymor yn cefnogi'r cynigion. Cyfeiriodd yr Uwch Swyddog Refeniw at y mesurau cynllunio a threthu eraill a gyflwynwyd gan LlC i fynd i'r afael â phroblemau tai, a byddai'r ymagwedd fesul cam yn caniatáu monitro'r sefyllfa'n ofalus. Roedd gan y Cyngor bwerau dewisol i hepgor unrhyw bremiwm mewn achos o galedi ariannol neu amgylchiadau eithriadol.

Croesawodd y Cabinet yr adroddiad a'r cynigion i fynd i'r afael â'r galw am dai yn y sir, gan annog ail-ddefnyddio eiddo a chefnogi pobl leol i aros yn eu cymunedau. Roedd yr Asesiad o Effaith ar Les yn nodi'n glir mai nod y cynigion yw mynd i'r afael â'r galw am dai yn y sir a'r cyfle i ddefnyddio incwm o'r premiymau i fynd i'r afael â'r

anghenion tai, gan gynnwys digartrefedd ac i leihau effaith ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor ar gymunedau lleol. Cytunodd y Cabinet â'r ymagwedd fesul cam o gynyddu'r premiwm er mwyn gallu monitro effaith y cynigion ochr yn ochr â mesurau eraill i fynd i'r afael â diffyg tai fforddiadwy. Roedd yr eithriadau amrywiol ar gyfer y premiymau wedi'u nodi ac roedd y Cabinet yn falch o nodi'r mesurau diogelu a oedd yn eu lle ar gyfer y rhai sy'n dioddef caledi ariannol neu amgylchiadau eithriadol y gellir eu hystyried fesul achos.

Ymatebodd y swyddogion i gwestiynau ynglŷn â sawl agwedd o'r adroddiad, gan gynnwys sut byddai'r cynigion yn cael eu cymhwyso mewn amgylchiadau penodol, fel a ganlyn-

- egluro sut yr oedd ymagwedd Sir Ddinbych yn cymharu ag awdurdodau lleol eraill Gogledd Cymru, gyda'r mwyafrif yn ystyried adolygu'r cyfraddau presennol gyda'r nod o gynyddu premiymau yn sgil yr hyblygrwydd newydd i godi'r tâl.
- nid oedd eiddo yn cael ei gyfrif fel un gwag hirdymor nes ei fod yn wag a heb ddodrefn am 12 mis, ac os oedd eiddo ar y farchnad agored i'w werthu neu ei osod byddai'r eithriad yn parhau am 12 mis arall, gan olygu y byddai 2 flynedd lle na fyddai angen talu'r premiwm. Gellir ystyried unrhyw amgylchiadau penodol nad ydynt yn cyd-fynd â'r eithriadau hyn fesul achos.
- roedd meini prawf penodol ar gyfer llety gwyliau i'w hystyried ar gyfer ardrethi busnes: roedd yn rhaid gosod yr eiddo am nifer o ddiwrnodau y flwyddyn (roedd y nifer wedi cynyddu'n ddiweddar o 70 i 140 diwrnod) a bod ar gael i'w osod am 250 diwrnod. Os diwellir y meini prawf, roedd mwyafrif yr eiddo yn gymwys ar gyfer rhyddhad ardrethi busnesau bach ac felly nid oeddent yn talu treth. O ystyried y cynnydd diweddar yn nifer y diwrnodau y mae eiddo'n cael ei osod, rhagwelir y byddai mwy o eiddo yn symud yn naturiol o ardrethi busnes i dreth y cyngor ac ar yr adeg hynny gellir ystyried hepgor y premiwm mewn achosion o galedi ariannol neu amgylchiadau eithriadol.
- manylu ar brosesau llym a gwaith yr Arolygydd Eiddo gan gynnwys ymweld ag eiddo, arolygon rhithiol, chwiliadau credyd / gwiriadau cyfleustodau, a gwaith a gynlluniwyd yn ddiweddarach yn y flwyddyn i ganfod tai gwag ac ail gartrefi sydd heb eu nodi.
- o ran eiddo rhent dros dro, o dan denantiaeth byddai'r preswylydd yn gyfrifol am dreth y cyngor ar gyfer y cyfnod y byddant yn yr eiddo; pan fyddai'r eiddo'n wag, a bod yr eiddo heb ddodrefn, byddai gan y landlord 6 mis heb orfod talu treth y cyngor; nid oedd tai rhent yn cael eu cyfrif fel ail gartrefi.
- ymhelaethu ar greu rôl Swyddog Prosiect i weithio gyda grwpiau dan anfantais ar draws Sir Ddinbych gan godi ymwybyddiaeth o wneud y mwyaf o incwm ac ategu at y gwaith da a wnaed yn flaenorol o ran hynny. Byddai'r swydd dros dro wedi'i hariannu gan y gwasanaeth yn y flwyddyn gyntaf i werthuso effeithiolrwydd cyn ystyried gwneud y swydd yn un parhaol.

Ar ôl adolygu'r adroddiad a'r wybodaeth ategol, gan gynnwys yr adborth o'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus ac argymhellion y swyddog -

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn argymell i'r Cyngor -*

*(a) bod y premiymau ail gartrefi safonol, ac eiddo gwag hirdymor yr un fath, i leihau nifer yr achosion o drethdalwyr yn osgoi talu (a fyddai efallai'n gwneud*

*cais i symud i'r categori mwyaf ffafriol) ac i sicrhau nad yw'r baich gweinyddol yn cynyddu'n sylweddol, ac eithrio ar gyfer eiddo sy'n gorwedd o fewn yr argymhelliad (c) isod;*

*(b)* *bod y premiwm a godir ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor yn aros ar 50% o Ebrill 2023 ac yna'n cynyddu i 100% o Ebrill 2024 ac i 150% o Ebrill 2025, a*

*(c)* *bod eiddo sydd wedi bod yn wag a heb ddodrefn ers 5 mlynedd neu fwy yn talu premiwm o 50% yn fwy na'r premiwm safonol.*

## 6 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio'r adroddiad a oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

Rhoddwyd crynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn –

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2023/24 oedd £250.793 miliwn (£233.696 miliwn yn 2022/23)
- rhagwelwyd y byddai gorwariant o £2.395 miliwn mewn cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- amlygwyd y risgiau ar hyn o bryd a'r rhagdybiaethau yn ymwneud â chyllidebau corfforaethol a meysydd gwasanaeth unigol
- rhoddwyd manylion arbedion ac arbedion effeithlonrwydd a chynnydd mewn ffioedd a chostau (£8.172 miliwn)
- rhoddwyd diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Cyfalaf a phrosiectau mawr.

Eglurwyd i'r Cabinet mai ychydig iawn o newid a fu ers yr adroddiad fis diwethaf. Roedd y gostyngiad yn y gorwariant o £3.348m i £2.395m yn deillio'n bennaf o incwm grant. Nodwyd y risgiau o ran setliad cyflog 2023/24, ynni a chostau chwyddiant. Byddai'r sefyllfa'n parhau i gael ei monitro'n agos.

***PENDERFYNWYD*** bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2023/24 a'r cynnydd yn ôl y strategaeth y cytunwyd arni.

## 7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet i'w hystyried.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Hugh Irving o ran adroddiadau yn y dyfodol yn ymwneud â'r Orsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd, eglurodd yr Arweinydd y byddai unrhyw ddatblygiadau pellach am y prosiect yn cael eu rhannu gyda'r aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol, dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

**8 DYFARNU CONTRACT GWASANAETHAU YSWIRIANT**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio yr adroddiad cyfrinachol yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu'r contract yswiriant fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Daeth contract yswiriant presennol y Cyngor i ben ar 30 Gorffennaf 2023 ac roedd angen contract newydd o'r dyddiad hwn ymlaen. Cyflwynwyd manylion yr ymarfer caffael a'r broses werthuso ynghyd â'r argymhellion dyfarnu contract ar gyfer gwahanol wasanaethau yswiriant yn Lot 3-9. Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion tendr i Lot 1 a 2 a nododd y Rheolwr Yswiriant a Risg y sefyllfa ddiweddaraf yn dilyn ymgysylltiad uniongyrchol gyda'r marchnadoedd arbenigol i dderbyn yswiriant gyda'r canlyniad economaidd gorau erbyn y dyddiad adnewyddu. Gan y byddai angen awdurdod dirprwyol i ddyfarnu contractau ar gyfer Lot 1 a 2 ac i sicrhau parhad yswiriant ar ôl diwedd Gorffennaf yn y meysydd hynny, cynigiwyd diwygiad i'r argymhelliad yn 3.2 o ran hynny.

Ystyriodd y Cabinet yr adroddiad a chanlyniad y broses gaffael a nodi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran Lot 1 a 2.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –*

*(a) cymeradwyo dyfarnu'r contractau o'r broses dendro gychwynnol fel yr amlinellir yn Adran 4.1 a 4.2 yr adroddiad ar gyfer Lot 3 i 9, ac yn*

*(b) nodi'r sefyllfa o ran Lot 1 a 2 ac yn dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Cyllid ac Archwilio (Swyddog Adran 151) i ddyfarnu contractau mewn perthynas â Lot 1 a 2 mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor.*

**9 AMRYWIO CONTRACT HIRSEFYDLOG I DDARPARU STAFF AR GYFER EIN GWASANAETH CYFLEOEDD GWAITH MEWNOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Elen Heaton adroddiad cyfrinachol yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymestyn y contract cyfredol i ddarparu staff ar gyfer ein Gwasanaeth Cyfleoedd Gwaith mewnol fel mae'r adroddiad yn ei nodi.

Ymhelaethodd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Gofal Cymdeithasol a Digartrefedd ar y rhesymau dros ymestyn y contract er mwyn sicrhau eglurder o ran disgwyliadau'r gwasanaeth sy'n ofynnol ac er mwyn cael amser i gynllunio trefniadau hirdymor. Cynigiwyd y dylid ailgyflwyno'r contract presennol gyda manyleb gwasanaeth ac amodau a thelerau diwygiedig fel yr atodwyd i'r prif adroddiad.

Ystyriodd y Cabinet yr adroddiad a chefnogi'r trefniadau dros dro arfaethedig i sefydlu dyfodol hirdymor y gwasanaeth.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo cyflwyno estyniad i'r contract Cynnig, gyda manylion a thelerau ac amodau diwygiedig dros dro, am gyfnod o flwyddyn gyda'r dewis i ymestyn am gyfnod pellach o 12 mis.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.15am.